Dau Gi Bach

Helo biod!
Ydych chi wedi gweld dau gi bach?
Dyma nhw!

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Esgid newydd am bob troed.
Dau gi bach yn dwad adre
Wedi colli un o'u sgidie.
Dau gi bach!

Helo gŵn bach!

Dau gi bach yn mynd i'r coed,
Dan droi fferau, dan droi troed.
Dau gi bach yn rhedeg adre,
Blawd ac eisin hyd eu coese.
Dau gi bach!

Helo chi'ch dau!

Dau gi bach a'u bron yn wyn,
Dau gi bach a'u llygaid syn,
Dau gi bach yn dal i sbio,
Dau gi bach sut r'ych chi heno?
Dau gi bach!

© 2020 S4C